# CANLLAW LLWYBR LLANBERIS AR GYFER CERDDWYR NEU DDIGWYDDIADAU BACH.



AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
ERYRI NATIONAL PARK AUTHORITY

www.eryri.llyw.cymru



# CANLLAW LLWYBR LLANBERIS AR GYFER CERDDWYR NEU DDIGWYDDIADAU BACH.

Awgrymwn eich bod yn cynllunio eich taith gerdded undydd ar unrhyw un o'r chwe llwybr ar Yr Wyddfa – mae'r manylion i gyd ar gael ar ein gwefan – dyma'r ddolen isod:
Yr Wyddfa: Dewis llwybr addas | Snowdonia National Park (llyw.cymru)

Byddem yn argymell llwybr Llanberis os nad oes gennych unrhyw brofiad blaenorol o'r ardal hon.

Mae dolen Llwybr ac ein ap Llwybrau'r Wyddfa ar gael ar ein gwefan:
Llwybr Llanberis | Walks and Routes Snowdonia National Park (llyw.cymru)

# Byddem hefyd yn argymell:

- Eich bod yn astudio rhagolygon tywydd y mynydd am rai dyddiau cyn i chi gyrraedd er mwyn eich galluogi i asesu sut fydd y tywydd. Defnyddiwch y cyswllt Swyddfa Dywydd hwn sydd wedi'i ddylunio'n benodol ar gyfer Yr Wyddfa a pheidiwch â dibynnu ar ragolygon cyffredinol ar y teledu neu'r radio. Defnyddiwch y wefan hon yn unig ar gyfer gwirio'r tywydd. Yr Wyddfa / Snowdon Summit (Gwynedd) weather - Met Office

- Os yw'n edrych yn anaddas (rhagolygon tywydd gwael) ar gyfer y diwrnod a ddewiswyd gennych, yna dylech ailystyried a chael Cynllun B ac C – h.y. ar gyfer dyddiadau eraill.

- Dylech ystyried gwneud hyn ar adeg addas o'r flwyddyn. Mae o fis Mai ymlaen yn tueddu i fod yn well a byddai'n well i chi gynllunio eich ymweliad ganol yr wythnos er mwyn osgoi penwythnosau gorlawn a cheisiwch osgoi Gwyliau Banc.

- Peidiwch â dibynnu ar ddefnyddio trên Rheilffordd Yr Wyddfa – mi fydd wedi'i harchebu'n llawn gyda theithwyr sy'n teithio arni i'r copa ac yn ôl o'r 15fed o Fai. Cyn y cyfnod hwn, o ddiwedd mis Mawrth dim ond hanner ffordd y byddant yn rhedeg (yn dibynnu ar y tywydd), ac mae'n rhaid i bawb ddychwelyd ar yr un trên. Felly, mae'n rhaid i'ch esgyniad a'ch disgyniad dilynol o'r copa fod ar droed oni bai bod yna argyfwng enbyd. Peidiwch â ffonio'r gwasanaethau brys oni bai bod hynny'n gwbl angenrheidiol. Dylai eich swyddog cymorth cyntaf ymdrin â materion bach a dyna pam y byddwch angen pecyn cymorth cyntaf da.

- Peidiwch â chymryd yn ganiataol y bydd y caffi ar agor ar unrhyw adeg – os bydd tywydd gwael neu wyntoedd cryfion, bydd y caffi ar gau. Pan fydd ar gau mae hyn yn golygu nad oes lloches dan do a cofiwch na fydd yna doiledau ychwaith – felly anogwch bawb ar eich taith i 'fynd i'r toiled' cyn i chi gyd gychwyn.

- **Mae sbwriel yn broblem sylweddol** felly peidiwch â gadael dim byd ar y mynydd. Mae hyn yn cynnwys gwastraff bwyd organig o unrhyw fath – croen oren, coryn afalau, gweddillion brechdanau, bagiau te, bonion sigaréts, nac unrhyw beth arall ychwaith. Rhaid dod â phopeth sy'n mynd i fyny'r mynydd i lawr a gwaredu â nhw'n gyfrifol.

- Sicrhewch fod gan pawb sy'n cymryd rhan ddigonedd o hylif, bwyd a hefyd ychwnaeg o fwyd wrth gefn.












- Dylai pob un gario dillad ac esgidiau sbâr addas. **Nid ydym yn argymell eich bod yn gwisgo 'trainers' waeth beth fo'r tywydd. Waeth beth fo ansawdd y 'trainers'** maent yn aml yn disgyn yn ddarnau ar y mynydd - gan arwain at broblemau eraill a phroblemau mwy difrifol os bydd pobl yn mynd yn sownd mewn tywydd cyfnewidiol neu wael. Mae **esgidiau cerdded neu fwts cerdded** yn hanfodol ynghyd â throwsus pwrpasol i'w wisgo dros eich trowsus arferol ynghyd â chot law bwrpasol – dylech gario rhain dim ots beth yw'r tywydd.
- Dylai rhywun yn eich criw gario Pecyn Cymorth Cyntaf o safon resymol gyda chitiau trin pothell / blisteri a rholyn o blasteri a dylai'r cit gynnwys lloches i'w defnyddio yn y maes neu dylai gynnwys cwpl o bonchos plastig.




- Cychwynnwch ar amser rhesymol - tua 9 - 9.30 yb. Waeth beth fo'r amser dylai'r rhai sy'n cymryd rhan yn y daith gario fflachlamp fach neu lamp pen rhag ofn i'r golau bylu neu os rhag ofn i rywun gael problemau yn ddiweddarach yn y dydd.
- Dylech gofio peidio ag aflonyddu (gyda sŵn a goleuadau) ar y gymuned leol yn enwedig wrth gerdded trwy Deras Victoria yn Llanberis – ardal breswyl yw hon.
- Parciwch yn y meysydd parcio yn Llanberis ac nid mewn ardaloedd preswyl os gwelwch yn dda.



- Dylai rhywun yn eich criw gario map – OS Explorer OL 17 – Yr Wyddfa – ac astudio hwn yn iawn ymlaen llaw – mae llwybr Llanberis yn glir ar y map. Gallwch hefyd lawrlwytho Ap Llwybr Yr Wyddfa ar ein gwefan.
- Er bod trac Llanberis wedi'i ddiffinio'n dda nid yw'n caniatáu i bobl fynd oddi ar y llwybr – dylech gadw at y llwybr a pheidio crwydro oddi arno. Mae rhai ardaloedd o dir mynyddig anodd ac ni chaniateir i neb gerdded ar y rheilffordd ar unrhyw adeg. Os teimlwch fod y tywydd yn newid er gwaeth dylech wirioneddol ystyried troi yn ôl. Gall pethau fod yr un mor anodd pan fo'r tywydd yn boeth – mae angen digon o hylifau a chap / het /penwisg addas – mae capiau pêl fas yn ddelfrydol ar gyfer adegau poeth fel hyn.



- Yn ddelfrydol dylech aros yn Llanberis y noson gynt er mwyn osgoi gyrru pellter cyn eich taith a bydd hyn yn eich galluogi i gychwyn ar amser rhesymol.
- O ran y defnydd o ddrôn, mae'r ddolen isod yn cynnwys gwybodaeth bwysig, felly gofynnwn yn garedig i chi edrych ar a glynu at y wybodaeth sydd ar wefan y Parc Cenedlaethol. Defnyddio Dronau - Parc Cenedlaethol Eryri (llyw.cymru)



- Ni chaniateir unrhyw danau agored na fflamau noeth yn unrhyw le ar y mynydd ar unrhyw adeg. Gwaherddir hefyd lansio balwnau neu lusernau dathlu.
- Rhaid cyfeirio unrhyw geisiadau am ffilmio masnachol ar gopa'r Wyddfa neu eiddo eraill yn y Parc Cenedlaethol at Swyddfa Eiddo'r Parc Cenedlaethol trwy ddilyn y ddolen isod:
- parc@eryri.llyw.cymru
- Eiddo@eryri.llyw.cymru



I gael rhagor o wybodaeth am ddiogelwch mynydd, ewch i'n gwefan:

Cynllunio eich ymweliad | Snowdonia National Park (llyw.cymru)

Mae gan drefnwyr digwyddiadau, waeth pa mor fach neu fawr, gyfrifoldeb i greu asesiad risg ar gyfer eu gweithgaredd. Ar gyfer mynd i fyny ac i lawr Yr Wyddfa, dylai'r asesiad risg gynnwys materion megis anawsterau posibl gyda thywydd garw (gan gynnwys amodau poeth ac/neu oer), diogelwch tir serth, llithro, baglu, codi a chario (os ydych yn cario offer), stoc dda byw (gwartheg a/defaid/geifr gwyllt), a'r rheilffordd (ni chaniateir i neb cheisio cerdded ar y trac hyd yn oed os ydi'r trac yn glir). Ni fydd angen i ni weld dim o'r gwaith papur hwn. Os ydych chi'n teimlo bod rhywbeth ar goll, ychwanegwch ef at y gwaelod h.y. efallai bod gan rywun anghenion arbennig neu mae yna ryw ddeinameg eraill nad ydym yn ymwybodol ohonynt.

Dolen at y ffeil- Dogfen-digwyddiadau-Cystadleuol-Trefniadol-ac-Elusennol.pdf (llyw. cymru).

Os yw eich digwyddiad ar Yr Wyddfa yn cynnwys mwy na 30 o bobl, cofrestrwch eich digwyddiad trwy lenwi'r ffurflen isod. Ni fyddwch yn derbyn gohebiaeth bellach oddi wrthym – ond mae hyn yn ein galluogi i fod yn ymwybodol o'ch dyddiadau, gwybodaeth gyswllt, a'r hyn sydd gennych ar y gweill. https://ow.ly/65iS50SBiW8

Gobeithio fod hyn o gymorth i chi ond cofiwch, mae'n well peidio diystyru unrhyw weithgaredd ar Yr Wyddfa ac mae paratoi yn drwyadl ar gyfer eich taith yn gwbl hanfodol.